Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

**Nyrs Iechyd Galwedigaethol**
**Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Pobl**
**Rhif y Swydd: 005084**

**CYFLOG CNB Band 5**
**Cytundeb dros dro am 12 mis**
**37 awr yr wythnos (cynllun gweithio hyblyg)**

Mae cyfle cyffrous wedi codi ar gyfer y swydd uchod o fewn yr Adran Adnoddau Dynol a leolir yn y Gwasanaeth Tân, Uned Iechyd Galwedigaethol, Pont-y-clun.

Mae'r rôl hon yn agored i bobl â phrofiad Iechyd Galwedigaethol yn ogystal â phobl sy'n edrych am newid yn eu gyrfa nyrsio.

Prif bwrpas y swydd yw cynorthwyo i ddarparu gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol proffesiynol o safon uchel i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) mewn modd ymroddedig a hyblyg. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus gwblhau profion meddygol arferol a phrofion meddygol cyn cyflogaeth ar bersonél y gwasanaeth tân.

I eithafu iechyd, llesiant, effeithlonrwydd ac ysbryd personél Gwasanaeth Tân ac Achub a lleihau'r risgiau i'r hyn y gallasant gael eu dinoethi o ganlyniad i arferion ac amgylchedd gwaith.

Mae deiliad y swydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Uwch Nyrs Iechyd Galwedigaethol ar gyfer pob agwedd glinigol ar y Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol.

Y cymwysterau hanfodol sy'n ofynnol yw Diploma neu Radd Nyrs Gyffredinol Gofrestredig (RGN) lefel 1, Chofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), gyda Cherdyn PIN a Rhif dilys, ynghyd ag ystod eang o brofiad nyrsio.

---

Ceir rhagor o fanylion am y swydd hon yn y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person y gellir eu llwytho i lawr ynghyd â'r Ffurflen Gais o'r tudalennau Gweithio i Ni / Swyddi Gwag Diweddaraf ar ein gwefan www.decymru-tan. gov.uk.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r Uwch Nyrs Iechyd Galwedigaethol, Ruth Hazell ar 01443 232370 neu drwy law e-bost r-hazell@decymru-tan.gov.uk.

Dylid dychwelyd Ffurflenni Cais gorffenedig at: Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX neu drwy law e-bost at personnel@decymru-tan.gov.uk .

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **Dydd Mercher 16eg o Dachwedd 2022 am 12:00.** Mae dyddiad y cyfweliad eto i'w gadarnhau.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.**